

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Rhagfyr 2021

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan yr Is Cadeirydd, Jane Pierce a gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Cydymdeimlwyd ac Ynyr Parri, yn dilyn colli ei dad, Gwyn Parri a hefyd teulu'r diweddar Mrs Pat Larsen. Rhoddwyd teyrnged gan Phyllis Ellis.

Presennol - Is Gadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cyngorwyr, Elfed Wyn Williams, R Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Gareth Griffiths, Richard Ll Jones, Ynyr Parri a Phyllis Ellis.

Croesawyd Y Cyngorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau - Lowri Hughes, Idris Thomas, Emma Chappell, Dawn Parry, Sasha Williams

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 2ail Tachwedd 2021

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Gareth Griffiths (1)

Elfed Wyn Williams (2)

Materion o'r Cofnodion

Fforwm Cymunedol Llechi - Esboniodd RLLJ ei fod wedi gyrru ymlaen llythyr ynglŷn â hyn, a chais i'r clerc ei yrru ymlaen i'r cyngorwyr eraill.

Llythyrau Diolch - Derbyniwyd llythyrau diolch am rodd ariannol gan Bwyllgor Neuadd Penisa'r-waun.

Lloches Bws Brynrefail - Mae'n bosib y bydd rhaid prynu a gosod lloches o'r newydd yma, gan nad yw'r cwmni yn credu fod posib cael paneli i'r lloches bresennol bellach. Y clerc i gysylltu eto.

Llwybr Bodandreg - Yn ystod y mis cafwyd cwyn fod Giât fawr wedi ei gosod ar ddechrau'r llwybr yma, ynghyd a'r arwydd wedi diflannu. Mae hwn wedi ei adrodd i'r adran llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.

Mapiau Enwogion yr Ardal - Nid oes ymateb wedi dod gan Gareth hyd yn hyn. Clerc i gysylltu i'w atgoffa erbyn y flwyddyn Newydd.

Amserlenni Bws - Cafwyd cadarnhad y bydd enw Allt Ddu yn cael ei roi yn yr amserlenni Newydd yn y Gwanwyn.

Cadeirydd.....

Gohebiaeth a Materion Eraill

Llwybrau - Derbyniwyd copi o lythyr cwyn sydd wedi ei gyfeirio at y prif weithredwr yng Nghyngor Gwynedd gan breswlydd o'r ardal sydd yn disgwyl am ymateb ynghlŷn â mynediad i lwybr ers mis Gorffennaf diwethaf. Mae Cyngor Cymuned wedi ymateb sawl gwaith ynghyd a chyfathrebu gyda'r Cyngor Sir ynghlŷn â hyn hefyd, a heb gael ymateb.

Cynllunio

Yn dilyn cysylltu â'r adran gynllunio i newid yr e-bost i dderbyn y ceisiadau cynllunio i e-bost swyddogol y Cyngor Cymuned, sylweddolais, nad oedd dim un cais wedi ei dderbyn, nac y chwaith yn derbyn yr e-bost gyda rhestr wythnosol. Yn dilyn ymweld ar wefan i weld os oedd ceisiadau cynllunio diweddar, penderfynodd y clerc gysylltu, gan nad oedd wedi derbyn dim un cais. Hyd yn hyn, er derbyn sawl ebost ynghlŷn â hyn, nid ydym wedi derbyn ceisiadau cynllunio. Os nad ydym yn derbyn hyn, nid ydym yn gallu rhoi ein barn ar y ceisiadau, ac felly yn colli'r cyfle i weithredu dros ein hardal. Mae hyn eto yn ddiffyg ymateb i geisiadau cynghorau cymuned. Gofynnwyd l'r clerc yrru cwyn swyddogol gan gynwyd y Prif Weithredwr yn y llythyr.

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd ar gais gan y cynghorwyr Sir:

C21/1036/18/LL - 2 Efail Castell, Rhiwlas

Codi estyniad un llawr

C21/1093/18/DT - 4 Stad Hafod, Clwt y Bont

Cais ar gyfer codi estyniad un llawr i flaen yr eiddo

C21/1037/18/DT - Afallon, Dinorwig

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochor a decin ar gefn yr eiddo.

C21/1131/18/DT - Glanrafon Isaf, Penisa'r-waun

Estyniad un llawr to gwastad yn y cefn.

C21/1141/20/LL- Gelligyffwrdd,

Cais ar gyfer newid defnydd byngalo llety staff i uned wyliau hunan cynhaliol.

C21/1070/18/LL - 1 Parc y Wern, Bethel

Estyniad a newidiadau ynghyd a modurdy Newydd. Diwygiadau l ganiatâd cynllunio
C19/0071/18/LL

Cadeirydd.....

C21/1064/18/LL - 8 Tan y Foel, Gallt y Foel

Dymchwel y porth blaen presennol a chodi porth Newydd yn ei le ynghyd a chreu feranda orchuddiedig.

C21/0762/18/AM - Cefn Côch Lôn Rhiwlas

Cais amlinellol gyda holl faterion wedi eu cad war gyfer codi tŷ preswyl deulawr.

Materion Ariannol

Mantolen

Derbyniwyd mantolen ariannol i ddiwedd Tachwedd. Nodwyd fod y taliadau yn gywir. Cafwyd trafodaeth ar y balansau, a nodwyd mai'r rheswm fod y balansau yn uchel yw am ein bod dal yn disgwyl am Gyngor Gwynedd I roi pris ar y llwybrau sydd angen eu gwella. Rydym wedi clustnodi oddeutu 30,000 ar gyfer y llwybrau sydd wedi eu rhestru ganom i gychwyn. Rydym eisoes wedi cytuno i glustnodi arian sydd drosodd o gyllideb flynyddol i wella ein llwybrau.

Gosod Cyllideb

Am eleni eto, nid oes dim newid i'r gyllideb wreiddiol, ond fod unrhyw arian oedd wedi eu clustnodi a heb ei ddefnyddio yn cael ei ychwanegu'r flwyddyn ganlynol o dan Brosiect cymunedol/llwybrau.

Mae rhaid i ni roi pwysau ar y Cyngor Sir I gyd weithio ar y prosiect llwybrau oherwydd sawl rheswm:

1. Yn Lleihau problemau sydd yn codi ar lwybrau os yw tirlfeddianwyr yn gweld fod y Cyngor yn cadw'r llwybrau mewn cyflwr derbynol.
2. Trwy hyn rydym hefyd yn helpu'r tirlfeddianwyr.
3. Rydym eisiau gweld ein llwybrau yn gerddadwy.
4. Popeth sydd yn cael ei wella er budd i'r Cyngor Cymuned, ac sydd o fudd i bawb.
5. Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn mwy o gwynion am lwybrau na dim arall.

Cysylltu â'r adran i gael cyfarfod arall er mwyn cael pethau yn symud eleni.

Cadeirydd.....

Praesept

Yn sgil hyn, penderfynwyd nad oedd angen codi'r praesept, ac y buasai'r praesept yr un fath y flwyddyn nesaf yn 31,800.

Trefniadau Cyfarfodydd 2022, Covid.

Er ein bod wedi sôn am ail gychwyn wyneb yn wyneb, mae pethau wedi datblygu yn sydyn unwaith eto, a theimlwyd nad oedd yn ddoeth i fentro i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb o hyd. Byddwn yn parhau yn rhithiol tan y Pasg, ac yna ail edrych ar y sefyllfa bryd hynny.

Cyfarfod Ionawr.

Penderfynwyd symud cyfarfod mis Ionawr o'r 4ydd i'r 11eg.

O Gwmpas y Bwrdd

Wardiau Bethel/Brynrefail - Mis Mawrth nesaf bydd ward Bethel yn uno gyda Felinheli, a bydd pentref Brynrefail yn uno o dan Gwm y Glo a Llanrug yn etholiadau sirol, ond ni fydd newid i ffiniau Cynghorau Cymunedol, bydd Bethel a Brynrefail dal o dan adain Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Cadarnhau Taliadau:

567 – 134.00

568 – 40.00

569 – 420.00

570 – 30.45

571 – 2904.72

572 – 30.00

Cadeirydd.....